Royal College of Physicians

National Respiratory Audit Programme (NRAP)



# Archwiliad gofal sylfaenol

## Gwybodaeth i gleifion

# Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am archwiliad gofal sylfaenol Rhaglen Genedlaethol Archwiliadau Anadlol (NRAP), ar gyfer cleifion sydd ag asthma neu glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Nod yr archwiliad yw gwella'r gofal a roddir i bobl sydd â'r cyflyrau hyn.

## Beth yw archwiliad gofal sylfaenol Rhaglen Genedlaethol Archwiliadau Anadlol (NRAP)?

Mae archwiliad gofal sylfaenol NRAP yn edrych ar sut mae pobl sydd ag asthma a COPD yn cael gofal gan eu meddygfa. Mae'n cymharu'r gofal hwn â chanllawiau cenedlaethol ar gyfer y cyflyrau hyn.

## Pa wybodaeth fydd yn cael ei chasglu?

Bydd gwybodaeth am eich diagnosis asthma neu COPD a'ch triniaeth yn cael ei chasglu. Daw'r wybodaeth hon o gofnodion electronig am gleifion mewn meddygfeydd yng Nghymru. Bydd eich manylion personol yn aros yn breifat bob amser.

## Sut a phryd y bydd yr wybodaeth yn cael ei chasglu?

Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu o gofnodion cleifion, gan ddechrau yn ystod hydref 2023. Bydd data'n cael ei gasglu bob 3 mis tan o leiaf 31 Mai 2026.

## Diogelwch data a chaniatâd

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes modd eich adnabod. Does dim angen eich caniatâd ar gyfer yr archwiliad hwn. Rhaid i sefydliadau sy'n delio â'ch data ddilyn deddfau i gadw'ch gwybodaeth yn ddiogel.

## Sut bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio?

Bydd meddygfeydd yn cael adroddiadau er mwyn gwella eich gofal. Mae adroddiadau hefyd yn helpu i ddangos pa elfennau y mae angen eu gwella ledled Cymru. Mae'n bosibl y bydd y data'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil; bydd eich manylion personol yn cael eu gwarchod bob amser.

## Dweud 'dim diolch'

Yn y gorffennol, gallai cleifion ddweud 'na' neu wrthod caniatáu i'w data gael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliad. Gan mai dim ond data dienw fydd yn cael ei ddefnyddio, dydy hyn ddim yn berthnasol erbyn hyn.

## Pwy sy'n cynnal yr archwiliad?

Y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) sy'n ariannu'r archwiliad, ac mae'n cael ei gynnal gan Goleg Brenhinol y Meddygon (RCP).

## Cysylltu

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, holwch eich meddygfa neu cysylltwch â thîm NRAP drwy anfon e-bost i NRAPinbox@rcp.ac.uk neu ffonio 020 3075 1526.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan NRAP hefyd yn: www.rcp.ac.uk/projects/primary-care-workstream

Yn gweithio gyda:

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Comisiynwyd gan:

HQIP
Healthcare Quality Improvement Partnership

© Coleg Brenhinol y Meddygon | Medi 2023